Mae'n bwysig bod eich plentyn yn mynychu ysgol yn rheolaidd ac yn cyrraedd yn brydlon. Mae unrhyw absenoldeb o'r ysgol yn effeithio'n negyddol ar gyflawniad academiaidd disgybl a'u cyfleoedd mewn bywyd. Cydnabyddir bod cysylltiad pendant rhwng disgyblion sy'n methu â chyflawni eu potensial ac yn cwmpo tu ôl yn yr ysgol â chyfraddau presenoldeb gwael. Unwaith mae disgyblion yn cwmpo tu ôl yn eu gwaith, gall fod yn anodd iawn dal i fyny ac weithiau mae'n amhosibl, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar pan fydd y plant yn dysgu

darllen, ysgrifennu, deall rheolau sylfaenol mathemateg a datblygu eu medrau personol a chymdeithasol.

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar rieni i sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac ar amser ac mae'n rhaid i ni fel ysgol wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod hynny'n digwydd.

Yr unig resymau derbyniol dros absenoldeb yw salwch, profedigaeth, ymweliadau addysgol a gymeradwyir, apwyntiadau meddygol a rhesymau eraill a ystyrir yn briodol gan yr ysgol. Yr ysgol yw'r unig gorff a all awdurdodi absenoldeb, nid y rhiant.

Os oes apwyntiad meddygol gan eich plentyn, gan gynnwys apwyntiad â'r deintydd, optegydd ac ati, gofynnir i chi gysylltu â'r ysgol o flaen llaw er mwyn medru cofrestru absenoldeb eich plentyn gyda chaniatâd. Os yw eich plentyn yn dost a fydddech cystal â chysylltu â'r ysgol ar y bore cyntaf, naill ai drwy ffonio neu drwy gyfrwng 'Parent Mail' er mwyn ein hysbysu o'r salwch. Os na fyddwn yn clywed oddi wrthyhch byddwn yn cysylltu â chi naill ai drwy neges destun neu drwy ffonio ar y bore cyntaf o absenoldeb. Os nad yw'r ysgol yn derbyn eglurhad am absenoldeb eich plentyn bydd yr absenoldeb yn cael ei gofnodi fel absenoldeb heb ganiatâd. Bydd yr ysgol yn gofyn am dystiolaeth feddygol mewn rhai amgylchiadau. **Os na dderbyniwn unrhyw esboniad am absenoldeb eich plentyn byddwn yn hysbysu'r Swyddog Lles Addysg.** Mae'r Swyddog Lles Addysg yr Awdurdod Lleol yn monitro presenoldeb disgyblion yn rheolaidd ac yn ymchwilio i achosion lle mae absenoldebau cyson a lle nad oes eglurhad digonol wedi ei dderbyn am absenoldeb.

Mae prydlondeb disgyblion yn bwysig hefyd ac mae cyrraedd yn hwyr yn aml yn effeithio'n negyddol ar addysg plentyn. Mae prydlondeb disgyblion hefyd yn cael ei fonitro gan yr ysgol a'r Awdurdod Lleol. Os yw plentyn yn absennol yn cyrraedd yn hwyr yn rheolaidd, heb reswm dilys byddwn yn hysbysu'r Swyddog Lles Addysg. Gofynnir i chi alw yn y swyddfa i gofrestru eich plentyn ac i roi rheswm os ydych yn cyrraedd yn hwyr.

Mewn achos o dywydd gwael e.e. eira, a'r ysgol ar agor, mae'n bwysig eich bod yn hysbysu'r ysgol os yw amgylchiadau yn peri nad ydych yn gallu cyrraedd yr ysgol.

Os ydych yn dymuno hawlio cyfnod o absenoldeb a fydddech cystal â chwblhau'r ffurflen berthnasol a'i ddychwelyd i'r ysgol er mwyn cael ei gymeradwyo gan y Pennaeth. **Nid ydym yn annog rhieni i fynd a'u plant ar wyliau yn ystod y tymor ysgol. Cofnodir absenoldeb oherwydd gwyliau fel absenoldeb heb ganiatâd os na drefnwyd i'r gwrthwyneb gyda'r Pennaeth.**

Mae gwella cyfraddau presenoldeb yn bwysig iawn am ei fod yn un o'r ffactorau a ddefnyddir wrth gymharu â mesur perfformiad yr ysgol mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill.

Absences, Punctuality and Holidays

Regular attendance at school and arriving on time is of the utmost importance. Any absence from school is known to affect pupil's academic achievement, which will in turn have a negative effect on life-chances. It is widely recognised that pupils who fail to achieve their potential and who fall behind in school have poor attendance rates. Once pupils have fallen behind, catching

up can be very difficult and sometimes impossible, particularly in the early years of school when the children are learning to read, write, understand the basic rules of mathematics and develop their personal and social skills.

Parents are legally obliged to ensure that their children attend school regularly and on time and schools are obliged to do all they can to ensure that happens.

If your child has a medical appointment, such as an appointment with the dentist or optician, you are required to contact the school beforehand so that your child's absence can be registered with authorisation.

*If your child is unwell, you should contact the school on the first morning, either by telephone or via 'Parent Mail' in order to inform us of the illness. If we do not hear from you we will contact you via a text message or by phone on the first morning of absence. **If the school does not receive an explanation for your child's absence, the absence will be recorded as an unauthorised absence.** If your child is absent without explanation we will contact the Education Welfare Officer. The LA's Education Welfare Officer monitors pupil attendance regularly and investigates cases of regular absenteeism where there is inadequate explanation provided for such absences. The school will ask for medical evidence in some instances.*

Pupil punctuality is also important and arriving late often impacts negatively on a child's education. Punctuality is also monitored by the school and the LA. If a child is regularly late the school will notify the Education Welfare Officer.

In the event of inclement weather, e.g. snow, but the school is open, it's important that you inform us if conditions prevent you from reaching the school.

If you need to request leave of absence, could you please complete the relevant form, which is available from the school office and return it to the school for approval by the Head Teacher.

Taking school holidays during term time is discouraged. All absences due to holidays will be recorded as unauthorised unless discussed with headteacher.

Improving the current rate of attendance is very important as this is one of the factors used to compare and measure the school's performance against that of other schools.

Trefniadau ar gyfer cau'r ysgol ar fyr rybudd

Mewn achosion penodol, megis tywydd gwael, gall yr ysgol orfod cau heb lawer o rybudd. Os digwydd hyn yn y bore byddwn yn:

- eich hysbysu drwy neges ar 'Parentmail'
- arddangos neges ar wefan yr Ysgol www.yggbrynymor.co.uk ac ar wefan yr Awdurdod Lleol
- cysylltu'n gynnar yn y bore gyda gorsafoedd radio 'The Wave' a Radio Cymru
- rhoi neges ar gyfrif 'X' yr ysgol.

Os yw'n digwydd bod rhaid i ni gau'r ysgol yn ystod y dydd byddwn yn:

- ffonio'r rhifau cyswllt arferol neu argyfwng yr ydych wedi eu nodi
- anfon neges destun yn eich hysbysu

Gofynnwn am eich help chi fel rhieni i:

- sicrhau bod eich rhifau cyswllt ffôn presennol ynghyd â rhifau cysylltu mewn argyfwng yn gyfredol
- bod yn barod i helpu drwy ffonio/cysylltu ag eraill
- bod yn ymwybodol y gall sefyllfaoedd argyfyngus godi.

Arrangements for closing the school at short notice

Under certain circumstances, such as inclement weather, the school may have to close without being able to give much notice. If this happens in the morning, we will:

- *send a message via Parentmail*
- *display a message on the school's website www.yggbrynymor.co.uk and the LA's website*
- *contact the radio stations 'The Wave' and 'Radio Cymru' early in the morning*
- *post a message on the school X account.*

If it so happens that we have to close the school during the day, we will:

- *call the usual or emergency contact numbers you have provided*
- *send a text message to notify you.*

We will ask for your help as parents to:

- *ensure that your current phone contact numbers, as well as your emergency contact numbers, are up to date*
- *be willing to help by phoning/contacting others*
- *be aware that emergency situations could arise.*

Cyfle Cyfartal

Yn Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr credwn fod gan bawb yr hawl i ymdriniaeth gyfartal a theg. Rydym yn parchu ac yn dathlu amrywiaeth a thrwy fod yn gynhwysol, sicrhawn fod gan bob aelod o gymuned yr ysgol gyfle cyfartal i fanteisio ar y meysydd amrywiol sydd o fewn darpariaeth yr ysgol.

Mae hyn yn golygu bod gan randdeiliaid yr ysgol gyfrifoldebau a rolau arbennig ar y cyd, ac fel unigolion. Ein nod yw sicrhau ein bod yn gweithredu'r polisi hwn yn ein dyletswyddau beunyddiol gan gefnogi cyfreithiau cenedlaethol, mentrau lleol a pholisïau ysgol eraill. Nid ydym yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un ar sail oed, rhyw, tueddiadau rhywiol, hil, lliw croen, anabledd, crefydd, cenedl, tras ethnig neu yn erbyn grwpiau lleiafrifol eraill. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, sy'n cynnwys Cynllun Hygyrchedd yn sicrhau ein bod yn cynllunio ar gyfer sicrhau bod pawb yn derbyn ymdriniaeth deg a chyfartal.

Equal Opportunities

At Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr we believe that everyone has the right to equal and fair treatment. We respect and celebrate diversity and by being inclusive we ensure that all

members of the school community have equal opportunities to access the various areas of school provision.

This means that the school's stakeholders have special roles and responsibilities, both jointly and as individuals. Our aim is to ensure we implement this policy when performing our day-to-day duties, thus supporting national laws, local initiatives and other school policies. We do not discriminate against anyone on the grounds of age, gender, sexual orientation, race, skin colour, disability, religion or ethnicity or against minority groups. Our Strategic Equality Plan, which includes an Accessibility Plan ensures that we plan equal and fair opportunities for all.

Mynediad i Bobl/Disgyblion Anabl

Yr ydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod disgyblion a rhieni sydd ag anableddau yn cael mynediad i safle'r ysgol a'i chyfleusterau.

Access for Disabled Adults/Pupils

We make every effort to ensure the school site and it's facilities are accessible for pupils and parents with a disability.

Cyfleusterau Toiled

Mae cyfleusterau toiled yr ysgol yn ateb anghenion disgyblion y Cyfnod Sylfaen a disgyblion hyn. Ceir cyfleusterau ar wahân i fechgyn a merched. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen a disgyblion hyn yn rhannu'r cyfleusterau hynny.

Mae toiled ar gael ar gyfer staff ac ymwelwyr gan gynnwys un toiled sy'n addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

Mae'r toiledau yn cael eu glanhau yn ddyddiol gan dair glanhawraig. Mae'r ysgol yn talu am wasanaeth glanhau yr Awdurdod Lleol.

Toilet Facilities

Toilet facilities in place at the school meet the needs of pupils in the Foundation Phase and older pupils of the school. There are separate facilities for boys and girls. Foundation Phase pupils and older pupils share these facilities.

There are toilets for staff/visitors including one that is accessible to wheelchair users.

The toilets are cleaned daily by three cleaners. The school pays for the cleaning service provided by the Local Authority.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Y mae ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr yn ysgol gynhwysol. Ystyriwn ei fod yn holl bwysig bod plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael y cyfle i ddilyn cwricwlwm eang a chytbwys, fel eu

cyfoedion. Mae'r ysgol wedi symud i'r system newydd sydd wedi eu rhoi yn ei lle o dan ddeddf ADY newydd.

Prif Negeseuon y ddeddf newydd yw:

- Bydd y term **Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** yn cael ei ddefnyddio yn lle'r termau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac Anawsterau ac Anableddau Dysgu(AAD). Dim ond pan fydd angen rhoi Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) i gefnogi ei addysg y bydd plentyn yn cael ei nodi fel ADY.
- Bydd Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig bellach yn cael eu galw'n Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Bydd y cod newydd yn cynnwys plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed. Mae hynny'n golygu y bydd y blynyddoedd cynnar e.e meithrin, colegau addysg bellach a cholegau annibynnol arbenigol pellach nawr yn cael eu cynnwys hefyd (ond nid addysg uwch na phrentisiaethau.)
- Bydd pwyslais ar ddyheadau uchel a chanlyniadau gwell ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag ADY.
- Bydd system raddoledig o weithredu blynyddoedd cynnar, gweithredu blynyddoedd cynnar a mwy a datganiadau yn diflannu, a bydd pob plentyn sydd ag ADY yn derbyn Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Bydd y CDU yn cymryd lle pob cynllun unigol arall.
- Bydd y CDU ar gyfer plant o dan oedran ysgol gorfodol yn cael eu cynnal gan awdurdodau lleol.
- Bydd system raddoledig gweithredu gan yr ysgol, gweithredu gan yr ysgol a mwy a datganiadau yn diflannu, a bydd pob plentyn sydd ag ADY yn derbyn Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Bydd y CDU yn cymryd lle Cynlluniau Addysg Unigol (CAU), Cynlluniau Ymddygiad Unigol (CYU) neu Gynlluniau Chwarae Unigol (CChU.)
- Bydd y mwyafrif o Gynlluniau Datblygu Unigol yn cael eu cynnal gan yr ysgol, ond pan ystyrir ei bod yn afresymol i'r ysgol wneud hynny, mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Lleol yn eu cynnal nhw.
- Bydd mwy o gyfle i blant, pobl ifanc, rhieni a gofawyr gyfrannu at y broses o greu a chynnal Cynlluniau Datblygu Unigol drwy gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Y gobaith yw y dylai cydweithredu agosach a chydweithio mewn partneriaeth helpu i osgoi anghytundebau.
- Bydd pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i sicrhau darpariaeth yn y Gymraeg os oes angen.
- Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc sydd â Chynllun Datblygu Unigol hawl cyfartal i apelio i'r Tribiwnlys.

Os hoffech ragor o wybodaeth, dilynwch y ddolen isod.

<https://llyw.cymru/anghenion-dysgu-ychwanegol-anghenion-addysgol-arbennig>

Yn yr ysgol ydym yn ceisio adnabod disgyblion sydd ag ADY yn gynnar drwy:

- gynnal arsylwadau ac asesiadau ar lawr y dosbarth
- cymharu cyrhaeddiad â chynnydd plant o'r un oed a'i gilydd
- defnyddio canfyddiadau profion perthnasol i'r oed
- defnyddio canlyniadau asesu statudol.

Er mwyn cwrdd ag anghenion plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol mae'n rhaid addasu'r Rhaglenni Astudio yn bwrpasol ar eu cyfer. Mae pob plentyn yn Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr yn dilyn gofynion y Cwricwlwm ar ei lefel ei hun, a byddant yn cael mynediad cyfartal i'r cwricwlwm trwy weithgareddau a dulliau dysgu amrywiol. Ein nod yw sicrhau fod disgyblion sydd ag ADY yn cael eu hintegreiddio a'u cefnogi yn llwyr er mwyn gallu cyflawni amcanion a nodau addysgol unigol. Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cydweithio'n agos gyda rhieni yn ogystal â chyd-weithio agos gydag asiantaethau allanol megis seicolegydd addysg, arbenigwyr meddygol ac ati er mwyn cefnogi disgyblion a sicrhau eu bod yn ymgymraedd at eu llawn botensial.

Mae'n rhan o'r Cod ADY i gysylltu â rhieni unrhyw ddisgybl i gael caniatâd cyn ei osod ar y gofrestr ADY mewn unrhyw gyfnod a/neu cyn iddo gael ei gyfeirio am asesiad arferol neu statudol. Hysbysir rhieni ynglŷn â chynnydd y disgybl a gwahoddir rhieni i bob adolygiad. Gellir gweld copi llawn o'r canllawiau Anghenion Dysgu Ychwanegol ar wefan yr ysgol neu drwy alw mewn i swyddfa'r ysgol.

Additional Learning Needs

Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr is an inclusive school. We consider it to be of paramount importance that children with Additional Learning Needs have the opportunity to follow a broad and balanced curriculum, just like their peers. The school has completed its journey to move to the new system that has come into force under a new ALN code.

Key Messages:

- The term Additional Learning Needs (ALN) will replace the terms Special Educational Needs (SEN) and Learning Difficulties and Disabilities (LDD). It is when additional learning provision (ALP) is required to support their education that a child or young person will be identified as having ALN.*
- Special Educational Needs Coordinators (SENCOs) in schools will now be called Additional Learning Needs Coordinators (ALNCOs)*
- The new Code for the new system will cover children and young people aged 0-25.*
- This means that early years, further education colleges and further independent specialist colleges will now also be included (but not higher education or apprenticeships.)*
- Emphasis will be on high aspirations and better outcomes for children and young people with Additional Learning Needs (ALN).*
- The current graduated system of Early Years, Early Years Plus and Statements is being replaced. All children and young people thought to have ALN will have an Individual Development Plan (IDP). The IDP will replace all other individual plans. IDPs for children under compulsory school age will be maintained by local authorities.*
- The current phased system of School Action, School Action Plus and Statements will disappear, and all children and young people thought to have ALN will receive an Individual Development Plan (IDP). The IDP will replace Individual Education Plans (IEPs), Individual Behavior Plans (IBPs) or Individual Play Plans (IPPs).*
- Most Individual Development Plans will be maintained by the school, but where it is considered unreasonable for the school to do so, the Local Authority may maintain*

them.

- There will be more opportunity for children, young people, parents and carers to contribute to the creation and maintenance of Individual Development Plans through Person Centred Planning.
- It is hoped that working together more closely should help to avoid disagreements.
- All reasonable steps will be taken to ensure Welsh language provision if required
- All children and young people who have an Individual Development Plan will have an equal right to appeal to tribunal.

If you require additional information, follow the link provided.

<https://gov.wales/additional-learning-needs-special-educational-needs>

We identify pupils with ALN by:

- carrying out classroom observations and assessments;
- comparing the attainment and progress of children of the same age;
- testing appropriate for their age;
- statutory assessment results.

In order to meet the needs of children with additional learning needs the programmes of study must be adapted accordingly. All pupils at Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr follow the requirements of the curriculum at their own level, and they will access the curriculum through various activities and learning methods. Our aim is to ensure that pupils with ALN are fully integrated and supported in order to be able to achieve individual educational objectives and goals. We appreciate the importance of working closely with parents, as well as external agencies such as an education psychologist and medical specialists in order to support pupils and ensure that they achieve their full potential.

In accord with the ALN Code school will liaise with parents to secure permission before any pupils is placed on the ALN register at any stage and/or prior to being referred for a routine or statutory assessment. Parents are kept informed of the pupils progress and are invited to each review. A full copy of the Additional Learning Needs guidance can be seen on the school website or by requesting a copy at the school office.

Cwricwlwm i Gymru (CiG)


Ein Cynnig

Ffocws ein cwricwlwm fydd ethos y pedwar diben.

Y pedwar diben yw man cychwyn a dyhead ein cynllun cwricwlwm ysgol. Nod ein hysgol yw cefnogi ein dysgwyr i ddod yn:

Ein cwricwlwm


- Bydd disgyblion yn datblygu corff o wybodaeth a sgiliau sy'n berthnasol i'r 6 Maes Dysgu a Phrofiad a fydd yn cynyddu mewn ehangder a dyfnder a lefel dealltwriaeth a soffistigeiddrwydd



wrth i ddisgyblion symud ymlaen trwy eu gyrfa ysgol.

- Bydd y 6 Maes Dysgu a Phrofiad yn rhyngweithio i sicrhau perthnasedd, dyfnhau dealltwriaeth, datblygu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd a bywyd go iawn a byd gwaith.
- Bydd yn sicrhau bod addysgeg ac asesu yn ganolog i ddyluniad y cwricwlwm.
- Bydd yn darparu cydestunau dilys ar gyfer datblygu'r sgiliau cyfannol, sy'n sail i'r pedwar diben.
- Bydd yn sicrhau bod rhifedd, llythrennedd a chymhwysedd digidol yn cael eu haddysgu ar draws y cwricwlwm.
- Bydd yn sicrhau bod safle'r ysgol yn ddiogel a bod ymddygiad cadarnhaol yn cefnogi lles holl aelodau'r ysgol.
- Bydd yn annog dyhead ac ymdeimlad o lwyddiant.
- Bydd yn sicrhau bod cydraddoldeb a chynhwysiant wrth galon cwricwlwm yr Ysgol.
- Bydd yn darparu cyfleoedd a phrofiadau ar gyfer datblygu disgyblion yn ysbrydol, moesol, meddyliol a chorfforol a fyddai'n eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o gymdeithas gan gynnwys ymgorffori Hawliau Plant yn ethos yr ysgol.

Bydd yn rhoi profiadau i ddisgyblion a fydd yn ymwneud â dod o hyd i ffyrdd o ymgysylltu, ennyn brwdfrydedd a magu hyder yn ein plant a phobl ifanc.



Our Offer

The focus of our curriculum will be the ethos of the four purposes.

The four purposes are the starting point and aspiration for our school curriculum design. Our school aims to support our learners to become:

Our curriculum

- *Pupils will develop a body of knowledge and skills relevant to the 6 Areas of Learning and Experience which will increase in breadth and depth and level of understanding and sophistication as pupils' progress through their school career.*
- *The 6 Areas of Learning and Experience will interact to ensure relevance, deepen understanding, develop connections and transfer learning to new and real-life contexts and with the world of work.*
- *Will ensure that pedagogy and assessment are centre to curriculum design.*
- *Will provide authentic contexts for developing the integral skills, which underpin the four purposes.*
- *Will ensure numeracy, literacy and digital competence are taught cross-curricular.*
- *Will ensure that the school site is safe and that positive behaviour supports the wellbeing of all members of the school.*
- *Will encourage aspiration and a sense of success.*
- *Will ensure that equality and inclusivity will be at the heart of the School's curriculum.*

- *Will provide opportunities and experiences for developing spiritual, moral, mental and physical pupils that would enable them to be full members of society including incorporating Children's Rights into the ethos of the school.*

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)

Mae crefydd, gwerthoedd a moeseg (RVE) yn ofyniad statudol o'r Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. [Canllawiau CGM](#)

Nid oes hawl gan riant i wneud cais i dynnu plentyn o CGM yn y Cwricwlwm i Gymru.

Gan fod CGM yn bwnc a bennir yn lleol, mae'r maes llafur cytûn yn nodi'r hyn y dylid ei addysgu mewn RVE o fewn yr awdurdod lleol a bydd ein cwricwlwm yn adlewyrchu'r canllawiau hyn.

Religion, Values and Ethics (RVE)

Religion, values and ethics (RVE) is a statutory requirement of the Curriculum for Wales and is mandatory for all learners from ages 3 to 16. [RVE Guidance](#)

There is no parental right to request that a child is withdrawn from RVE in the Curriculum for Wales. As RVE is a locally determined subject, the agreed syllabus specifies what should be taught in RVE within the local authority and our curriculum will reflect this guidance.

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)

Mae ein cwricwlwm ysgol yn croesawu'r canllawiau yn y [Cod ACRh](#). Bydd gan ein darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol yn addysg ein dysgwyr a bydd yn chwarae rhan hanfodol wrth eu cefnogi i wireddu'r pedwar diben fel rhan o ddull ysgol gyfan. Bydd yn helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o berthnasoedd, i gyd yn seiliedig ar gydymddiriedaeth a pharch, yw sylfaen ACRh. Mae'r perthnasoedd hyn yn hanfodol i ddatblygiad lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae polisi ACRh yr ysgol ar gael o'r swyddfa. Nid oes hawl gan riant i ofyn i blentyn gael ei dynnu'n ôl o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y Cwricwlwm i Gymru.

Relationship and Sexuality Education (RSE)

Our school curriculum embraces the guidance in the [RSE Code](#). Our RSE provision will have a positive and empowering role in our learners' education and will play a vital role in supporting them to realise the four purposes as part of a whole-school approach.

Helping learners to form and maintain a range of relationships, all based on mutual trust and respect, is the foundation of RSE. These relationships are critical to the development of emotional well-being, resilience and empathy. The school's RSE Policy is available from the office. There is no parental right to request that a child is withdrawn from RSE in the Curriculum for Wales.

Addysg Gorfforol

Yr ydym yn annog pob disgybl i fyw yn iach a gofalu am eu cyrff. Mae Addysg Gorfforol yn rhan annatod o'r cwricwlwm a neilltuir sesiynau penodol ar gyfer addysgu Addysg Gorfforol yn ystod yr wythnos. Mae addysgu am effaith addysg gorfforol ar y corff a meithrin nodweddion megis ymdrech, chwarae teg, cyd-chwarae, dyfalbarhad a hunanhyder yn rhan bwysig o'r addysg hon.

Mae darpariaeth Addysg Gorfforol yr ysgol yn eang ac amrywiol ac yn cynnwys addysgu gêmiau, gymnasteg, dawn, nofio ac athletau yn unol â gofynion cwricwlaidd. Yn y Cyfnod Sylfaen mae pob disgybl yn derbyn awr a hanner yr wythnos o wersi Addysg Gorfforol, gyda'r gwersi yn cael eu cynnal ar safle'r ysgol. Ar ben yr ysgol, mae'r disgyblion yn treulio o leiaf awr bob wythnos mewn gwersi Addysg Gorfforol. Dydy safle'r ysgol ddim yn addas i gynnal yr holl weithgareddau corfforol i'r disgyblion hyn, felly cynhelir y gweithgareddau yma yn y neuadd chwaraeon, Neuadd Gymunedol Brynmill, trac athletau a phwll nofio Prifysgol Abertawe.

Yn ychwanegol i hyn, mae trawstoriad o gyfleoedd i ddisgyblion fynychu sesiynau hyfforddiant ychwanegol yn wythnosol ar ôl oriau ysgol, gydag amrywiaeth o glybiau allgyrsiol yn cael eu cynnig ar wahanol adegau o'r flwyddyn, e.e. pêl-rwyd, pêl-droed, rygbi a thenis.

Mae gan yr ysgol nifer o dîmau chwaraeon sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gystadlu yn unigol ac fel aelod o dîm. Mae'r tîmau hyn yn cynnwys:

- tîmau pêl-droed bechgyn a merched, sy'n cystadlu yng nghystadlaethau'r Urdd a gwyliau pêl droed lleol
- tîmau pêl-rwyd cymysg sy'n cystadlu yng nghystadlaethau'r Urdd a gwyliau pêl-rwyd lleol
- tîmau rygbi, sy'n cystadlu yng nghystadlaethau'r Urdd a gwyliau rygbi lleol
- tîmau nofio sy'n cystadlu yng Ngala'r Urdd
- tîmau athletau sy'n cystadlu ym mhencampwriaethau Dinas a Sir Abertawe ac ysgolion Cymru.

Physical Education

We encourage all pupils to live healthily and to look after their bodies. Physical Education is an integral part of the Foundation Learning curriculum and sessions are allocated for physical education during the week. Teaching about the effect of physical education on the body and nurturing attributes such as effort, fair play, playing together, perseverance and self-confidence.

The Physical Education provision at the school is varied and includes games, gymnastics, dance, swimming and athletics in line with curricular requirements. In the Foundation Phase each pupil receives an hour and a half of physical education with classes being held on the school grounds. Pupils at the top end of the school spend at least an hour per week in physical education lessons. The School's site is not appropriate for holding physical education activities for these pupils and therefore these activities are carried out in the Brynmill Community Centre as well as Swansea University's sports hall, athletics track and swimming pool. In addition, there is a variety of opportunities for pupils to attend additional weekly after-school training, with a range of different extra-curricular clubs being offered at different times of the year e.g. netball, football, rugby and tennis.

The school has a number of sports teams that provide an opportunity for pupils to compete individually and as part of a team. These teams include:

- *boys' and girls' football teams that compete in Urdd competitions and in local football festivals*
- *mixed netball teams that compete in Urdd competitions and in local netball festivals*
- *rugby teams which compete in Urdd competitions and in local rugby festivals*
- *swimming teams that compete in the Urdd Gala*
- *athletic teams that compete in the City and County of Swansea, Welsh Schools championships.*

Gwaith Cartref

Rhoddir tasgau gwaith cartref gan athrawon dosbarthiadau unigol. Mae'r tasgau yma yn estyniad o waith y dosbarth ac yn aml yn atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd yn y dosbarth. Yn nosbarthiadau'r Adran y Bae a'r Môr mae'r tasgau a roddir fel arfer yn ymwneud â datblygiad llythrennedd a rhifedd disgyblion neu'n dasgau sy'n annog chwilfrydedd a diddordeb disgyblion. Yn Adran y Bae a'r Môr darperir crynodeb Saesneg o natur y tasgau cartref. Ar ddechrau bob tymor bydd yr athro/athrawes ddosbarth yn cyflwyno amlinelliad o waith y tymor ac mae croeso i chi fel rhieni/gwarcheidwad i fynd ar drywydd rhai o'r themâu sydd ymhlyg â'r thema dymhorol yma yn y cartref.

Yn ystod blynyddoedd ffurfiannol plentyn y cyfraniad pwysicaf gall rhieni wneud i annog datblygiad addysgol eu plant yw i siarad, darllen a thrafod gyda'ch plentyn er mwyn hybu sgiliau llythrennedd megis llafaredd a chyfathrebu a meithrin chwilfrydedd yn y byd o'u cwmpas.

Yn Adran yr Afon, rhoddir gwaith cartref Mathemateg yn wythnosol. Yn ogystal cynnigir hefyd bwydlen o weithgareddau dewisol, y gellir dewis o'u plith gyda'r bwriad o hybu annibyniaeth a hunan-ddisgyblaeth disgyblion. Gellir ddefnyddio cyfrifau HWB disgyblion i gyflwyno gwaith cartref i athrawon.

Homework

Homework tasks are set by individual class teachers. These tasks are an extension of classwork and often reinforce what has been learnt in class. In the Adran y Bae a'r Môr classes, the tasks which are usually given involve the development of pupils' literacy and numeracy or stimulate pupils' curiosity and interest. In the Adran y Bae a'r Môr, an English summary of the nature of the tasks is sent home to parents. At the start of each term, the class teacher will present an outline of the term's work and you are welcome as a parent/guardian to go over some of the components of the overall term theme at home.

During a child's formative years, the most important contribution parents can make to encourage the educational development of their children is to speak, read and discuss with their children in order to promote literacy skills such as oracy and communication and to nurture curiosity about the world around them.

In Adran yr Afon Mathematics homework is given weekly. There is also a menu of optional activities, from which pupils choose, with the aim of promoting pupils' independence and self-discipline.

Pupils can use their HWB accounts to present their homework to teachers.

Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Mae'r ysgol hon yn bwydo Ysgol Gyfun Gŵyr. Ysgol gyfrwng Cymraeg yw'r ysgol uwchradd hon. Bydd disgyblion Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Gŵyr ar ddiwedd Blwyddyn 6 er gall rhieni ddewis danfon eu plentyn i ysgol arall os dymunwn wneud hynny. Yn ystod eu cyfnod ym Mlwyddyn 6 bydd rhieni disgyblion yn derbyn gwybodaeth oddi wrth yr ALI yn amlinellu sut i wneud cais am fynediad i ysgol uwchradd. Mae Ysgol Gyfun Gŵyr yn trefnu nosweithiau agored ar gyfer rhieni a disgyblion a chânt gyfle i gwrdd â'r pennaeth a staff yr ysgol. Mae trefniadau pontio effeithiol yn digwydd yn ystod Blwyddyn 6 i hwyluso'r trosglwyddiad o'r ysgol hon i'r ysgol uwchradd. Mae cysylltiadau agos a sefydlog rhwng y ddwy ysgol a chaiff disgyblion gyfle i ymweld â'r ysgol yn ystod diwrnodau pontio yn ogystal â chyfle i fwynhau wythnos bontio yng Ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog.

Transition to Secondary School

This school is a feeder school for Ysgol Gyfun Gŵyr. This is a Welsh-medium secondary school. Pupils at Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-Môr will transfer to Ysgol Gyfun Gŵyr at the end of Year 6. However, parents have the right to choose which school their child will attend when they leave. During their time in Year 6, the Local Authority will send out a booklet to all parents which contains all the relevant information about the application and admission process for secondary schools. Ysgol Gyfun Gŵyr holds an open evening when parents and pupils can meet the head teacher and staff of the school. There are excellent arrangements in place for facilitating the transition from Year 6 to the secondary school.

At the end of Year 6 pupils will transfer to Ysgol Gyfun Gŵyr. A close relationship has exists between the two schools and students have the opportunity to visit the school during transition days as well as the opportunity to enjoy a transition week at the Urdd Camp in Llangrannog.

Cynnal Cysylltiadau â Rhieni

Yn Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr, rydym yn gweithredu polisi 'drws agored' ar gyfer rhieni / gwarcheidwaid. Diben y polisi yw annog cyfathrebu agored, adborth a thrafodaeth. Rydym yn croesawu ac yn gwerthfawrogi cyfraniad rhieni i fywyd a gwaith yr ysgol.

Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg neu les eich plentyn, yna rydym yn credu ei bod yn well o lawer eich bod yn dod i mewn i'r ysgol i'w trafod - **yn y lle cyntaf gyda'r athro dosbarth**, ac yna gyda'r Pennaeth os nad ydych wedi eich bodloni.

Er ein bod yn cytuno bod y cyfryngau cymdeithasol yn gallu bod yn ffordd wych o gyfathrebu a rhannu syniadau, rydym o'r farn nad dyma'r lle priodol i leisio anfonlonrwydd a chwyno am weithdrefnau'r ysgol. Byddai'n llawer gwell gennym drafod y problemau gyda chi wyneb yn wyneb, trwy e bost neu galwad ffôn.

Trwy ddilyn y canllawiau isod hyderwn y bydd modd datrys unrhyw bryderon yn gyflym. Bydd staff yn gwrando ar eich pryderon ac yn gweithio gyda chi i ddatrys unrhyw fater sy'n peri

pryder. Disgwylir i staff a rhieni i ymddwyn yn rhesymol ac yn deg ar bob cyfrif. Mae'n bwysig er lles ein plant ein bod yn gweithio gyda'n gilydd.

Er mwyn gweithredu ein polisi yn effeithiol gofynnwn am eich cydweithrediad ymlaen llaw â'r rheolau canlynol:-

- Rhaid i bob ymwelydd gofrestru ei b/phresenoldeb ym mhrif swyddfa'r ysgol.
- Fel arfer, bydd athrawon dosbarth ar gael ar gyfer cyfarfod cyn dechrau'r diwrnod ysgol neu ar ddiwedd y diwrnod ysgol yn ystod y cyfnod derbyn a throsglwyddo disgyblion. Gofynnwn yn garedig i chi fynd i brif swyddfa'r ysgol cyn chwilio am aelodau o staff er mwyn trafod unrhyw bryderon sydd gennych.
- Mewn rhai achosion, mae'n bosibl na fydd yr athro fod ar gael am resymau dilys a dylid trefnu amser cytûn i drafod unrhyw bryder.
- Yn yr un modd os ydych yn teimlo bod angen treulio mwy na 5 munud i drafod, yna dylid ffonio neu alw yn y brif swyddfa (drwy'r brif fynedfa) i wneud apwyntiad i weld aelod o staff ar adeg sy'n gyfleus i'r ddwy ochr.
Gwerthfawrogwn pe baech yn gallu nodi diben y cyfarfod er mwyn i staff fedru ymateb yn briodol.
- Gall staff hefyd fod ar gael i gymryd galwadau ffôn. Os nad ydynt ar gael, gadewch rif cyswllt fel y gall yr aelod o staff eich ffonio'n ôl ar adeg sy'n gyfleus. Mi fydd e-bost eich athro yn llyfr cyswllt eich plentyn. Gofynnwn eich bod yn dilyn canllawiau etiquette e-bost sydd ar gael o we fan yr Ysgol neu ar gael o'r swyddfa pe dymunwch. Ar ddechrau'r diwrnod ysgol ac yn ystod oriau gwaith, mae mynediad i'r prif adeilad yn cael ei reoli. Mae'r safle wedi ei gloi ar gyfer diogelwch ein disgyblion.
- Yr ydym yn ysgol sy'n hyrwyddo parch. Ni ddylai rhieni godi eu lleisiau na gweiddi ar staff. Mae ymddygiad ymosodol, heriol neu fygythiol yn annerbyniol. Mae'n bosib y byddwn yn gofyn i unrhyw un sy'n cam-ddefnyddio'r polisi hwn i adael tir yr ysgol.
- Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon ar y ffordd y mae'r ysgol wedi delio â'r broblem, cyfeiriwch at y Polisi Cwynion gan ddilyn y drefn a amlinellir.

Bellach mae fforwm i rieni gennym yn cydweithio gyda'r Ysgol.

Maintaining Links with Parents

At Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr we operate an 'open door' policy for parents/guardians. The purpose of our 'open door' policy is to encourage open communication, feedback and discussion. We value the contribution and input parents make to the school.

*If you have any worries or concerns about your child's education or welfare, then we believe that it is far better that you come into school and discuss them – **in the first case with the class teacher** and then with the Head teacher if these issues have not been resolved. Following this process allows issues to be resolved and explained.*

Whilst we agree that social network platforms are excellent forums for communicating and exchanging ideas we believe that these are not the appropriate platforms for voicing

dissatisfaction and complaints about school procedures. We would prefer to discuss these problems with you in person, via e mail or by phone.

By following processes outlined in this policy staff will listen to your concerns and work with you to resolve any issues that you might have. Staff and parents are expected to be reasonable and be fair to all parties. It is in the best interests of all our children that we work together.

We are able to maintain our 'open door' policy by requesting your co-operation with the following rules. Thank you.

- All visitors to the school must report to the school office upon arrival.*
- Class teachers will usually be available before the start of the school day or end of the school day, during handover. We ask kindly that parents report to the office before seeking members of staff to discuss any issues which they may have.*
- In some cases, the teacher may not be available for genuine reasons and a different meeting time should be arranged.*
- If you feel that the matter needs more than 5 minutes to discuss, then parents should phone or call at the main office via the main entrance to make an appointment to see the member of staff at a mutually convenient time. It is useful to staff if you are able to state the purpose of the meeting request.*
- Staff may also be available to take phone calls. If they are not available please leave a contact number so that the member of staff may call you back at a different time. Your teacher's email will be in your child's contact book. We ask that you follow the guidelines of email etiquette available from the School web site or available from the office if you wish.*
- At the beginning of the school day and during working hours, the main school building is accessible to parents and access controlled. The site is locked for the purpose of safeguarding pupils.*
- We are a school that promotes respect. At no time should parents raise their voices at staff. Aggressive, challenging or threatening behaviour is unacceptable. Anyone who misuses the policy may be asked to leave the school premises.*
- If you remain unhappy with the way the school has dealt with the problem please refer to the Complaints Policy and follow the procedure outlined.*

We now have a Parent forum that work with the school.

Trefniadau ar gyfer gwneud cwyn

Yn Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr, yr ydym yn disgwyl bod disgyblion, staff a rhieni yn gwrandao ar ac yn parchu ei gilydd. Yr ydym yn awyddus i feithrin cymuned hapus a gofalgar ac rydym ar gael i drafod unrhyw bryderon sydd gennych. Gallwch siarad ag athro/athrawes dosbarth eich plentyn yn y man cyntaf os yw hynny'n briodol ac yn berthnasol i'r broblem neu gysylltwch â'r Pennaeth yn uniongyrchol. Mae'r camau ar gyfer gwneud cwyn wedi'u hamlinellu ym Mholisi Cwynion yr ysgol.

Os oes gennych gŵyn o dan Adran 23 y Ddeddf Diwygio Addysg (sy'n ymwneud â'r cwricwlwm, Addysg Grefyddol a Chyd-addoli) gallwch gael copi yr ALI o'r Gweithdrefnau ar gyfer Gwneud Cwyn o'r ysgol neu'r Adran Addysg.

Pa beth bynnag yw'r gŵyn dylech yn gyntaf geisio datrys y mater drwy wneud apwyntiad i drafod y mater gyda'r Pennaeth.

Complaints Procedure

At Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr we expect pupils, staff and parents to listen to each other and show respect for each other. We are keen to nurture a happy and caring community and we are available to discuss any concerns you may have. You can speak with your child's class teacher in the first instance, if that is appropriate and relevant to the problem or you can contact the Head teacher directly. The procedures for making a complaint are outlined in the schools Complaint Policy.

If you have a complaint under Section 23 of the Education Reform Act (relating to the Curriculum, Religious Education or Religious Worship) the LA has prepared a Formal Complaints Procedure which is available from the School or Education Department.

In the event of any complaint you should first try to resolve the matter by making an appointment to discuss the matter with the Headteacher.

Adrodd i Rieni

Byddwch yn derbyn adroddiad ysgrifenedig ar gynnydd eich plentyn yn ystod ail hanner Tymor yr Haf. Bydd yr adroddiad hwn yn darparu crynodeb o gynnydd a chyraeddiadau eich plentyn ymhob agwedd o'i ddatblygiad addysgol yn ystod y flwyddyn academaidd. Bydd yr adroddiad yn eich galluogi chi fel rhieni/gwarcheidwad i dracio cynnydd eich plentyn a derbyn targedau cyraeddadwy a realistig fydd yn galluogi eich plentyn i gynnal a gwella ar ei berfformiad.

Cynhelir Noson Rieni yn yr ysgol o fewn pythefnos o dderbyn yr adroddiad er mwyn i chi fedru trafod cynnwys yr adroddiad gydag athro/athrawes ddosbarth eich plentyn.

Cynhelir nosweithiau cwricwlaidd ar ddechrau Tymor yr Hydref er mwyn i rieni gwrdd ag athrawon eu plant ac er mwyn i athrawon amlinellu gweithdrefnau'r dosbarthiadau ynghyd â'u disgwyliadau yn ystod y flwyddyn.

Cynhelir Cyfarfodydd Rhieni yn Nhymor yr Hydref a'r Gwanwyn er mwyn trafod lles a chynnydd cyffredinol eich plentyn.

Wrth gwrs os ydych yn dymuno gweld athro/athrawes ddosbarth ar ryw adeg arall mae croeso i chi wneud hynny drwy drefnu apwyntiad ffurfiol drwy swyddfa'r ysgol.

Reporting to Parents

You will receive a written report on the progress of your child during the second half of the summer term. This report will provide a summary of your child's progress and achievements in all aspects of their educational development during the academic year. The report will enable

you as the parent/guardian to track your child's progress and it will set attainable and realistic targets to enable your child to maintain and improve their performance.

A parents' evening is held at the school within a fortnight of receipt of the report so that you can discuss the contents of the report with your child's class teacher.

Curricular evenings are held at the beginning of the Autumn Term for parents to meet their children's teachers and for teachers to outline classroom procedures and their expectations for the year.

Parents' meetings are held in the Autumn and Spring Term to discuss your child's general welfare and progress.

Of course, if you wish to see a class teacher at some other time, you are welcome to do that by arranging a formal appointment through the school office.

Asesu

Asesir disgyblion ar fynediad i'r Dosbarth Derbyn yn ystod chwe wythnos gyntaf o'u haddysg. Cynhelir asesiadau crynodedol a ffurfiannol yn ystod eu cyfnod yn y Adran y Bae a'r Môr gydag asesiadau statudol a phrofion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael eu cynnal i Flwyddyn 2 i 6

Assessment

Reception Class pupils are assessed within six weeks of starting school. Summative and formative assessments are made during their time in the Adran y Bae a'r Môr while statutory assessments and Literacy and Numeracy Framework tests are carried out in Year 2 to 6.

Blaenoriaethau'r Cynllun Gwella Ysgol/School Improvement Priorities

[Ar gael ar we fan yr ysgol/ The can be found on the school website:](#)